**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 994 (Cy.143)

# TIR COMIN, CYMRU

## Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer cynyddu'r ffioedd a ragnodwyd yn Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966 (O.S. 1966/1471), a gynyddwyd o'r blaen gan Reoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1980 (O.S. 1980/1195) a Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) 1989 (O.S. 1989/2167)), am chwiliadau yng Nghofrestrau Tir Comin a Meysydd y Trefi a'r Pentrefi ac am ddarparu copïau wedi'u hardystio o gofnodion yn y Cofrestrau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r symiau a bennir yn Nhabl y Ffioedd sydd ar ddiwedd y ffurflen yn yr Atodlen i O.S. 1989/2167 yn unol â hynny.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 994 (W.143)

# COMMON LAND, WALES

## The Commons Registration (General) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations provide, in relation to Wales, for the increase of fees prescribed in the Commons Registration (General) Regulations 1966 (S.I. 1966/1471), which were previously increased by the Commons Registration (General) (Amendment) Regulations 1980 (S.I. 1980/1195) and the Commons Registration (General) (Amendment) Regulations 1989 (S.I. 1989/2167)), for searches of the Registers of Common Land and Town and Village Greens and for providing certified copies of entries in the Registers.

These Regulations also amend the amounts specified in the Table of Fees contained at the end of the form contained in the Schedule to S.I. 1989/2167 accordingly.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 994 (Cy.143)

# TIR COMIN, CYMRU

## Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2 Ebrill 2003* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mai 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan erthygl 19(1)(a) a (d) o Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965(**a**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**) a phob pwer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Mai 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "y Ffurflen" ( "*the Form*") yw Ffurflen 21 fel y cafodd ei hamnewid yn Atodlen 1 i'r Prif Reoliadau;

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) 1966(**c**).

**Amnewid ffi newydd**

**2**.Yn Atodlen 3 i'r Prif Reoliadau-

(a) yn y golofn gyntaf, yn lle'r geiriau "ten pounds" rhodder y geiriau "twenty pounds"; a

(b) yn yr ail golofn, yn lle'r symiau "£6.00" a "50p" rhodder y symiau "£14.00" a "£1.00" yn eu trefn.

(a) 1965 p.64. *Gweler* y diffiniad o "prescribed" yn adran 22(1).

(b) Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1966/1471; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1970/1996, 1980/1195 a 1989/2167.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 994 (W.143)

# COMMON LAND, WALES

## The Commons Registration (General) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *2nd April 2003* |
| *Coming into force* | *1st May 2003* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 19(1)(a) and (d) of the Commons Registration Act 1965(**a**), and now vested in the National Assembly for Wales(**b**), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following regulations:

**Citation, commencement, application and interpretation**

**1.** -(1) These Regulations may be cited as the Commons Registration (General) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 1st May 2003.

(2) These Regulations apply to Wales.

(3) In these Regulations-

"the Form" ("*y Ffurflen*") means Form 21 substituted in Schedule 1 to the Principal Regulations;

"the Principal Regulations" ("*y Prif Reoliadau*") means the Commons Registration (General) Regulations 1966(**c**).

**Substitution of new fee**

**2**. In Schedule 3 to the Principal Regulations-

(a) in the first column, for the words "ten pounds" there is substituted the words "twenty pounds"; and

(b) in the second column, for the amounts "£6.00" and "50p" there is substituted the amounts "£14.00" and "£1.00" respectively.

(a) 1965 c.64. *See* the definition of "prescribed" in section 22(1).

(b) These powers were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1966/1471; relevant amending instruments are S.I. 1970/1996, 1980/1195 and 1989/2167.

**Diwygio'r Ffurflen**

**3**. Yn y rhan o'r Ffurflen o dan y pennawd "FEES", yn lle'r symiau "£6.00", "50p" a "£10.00", rhodder y symiau "£14.00", "£1.00" a "£20.00" yn eu trefn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

2 Ebrill 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

**Amendment of the Form**

**3**. In the part of the Form headed "FEES", for the amounts "£6.00", "50p" and "£10.00", there are substituted the amounts "£14.00", "£1.00" and "£20.00" respectively.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

2nd April 2003

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2003 Rhif 994 (Cy.143)

## TIR COMIN, CYMRU

Rheoliadau Cofrestru Tir Comin (Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2003 No. 994 (W.143)

## COMMON LAND, WALES

The Commons Registration (General) (Amendment) (Wales) Regulations 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090736-1

9 780110 907369

£1.75

W71/04/03 ON